



tud 3
Ymweliad Esgob

tud 4
Ysgol Tal-y-bont

tud 10
Dan Do

tud 12
Clwb Ffermwyr Ifanc

ETHOL CYNGHORYDD NEWYDD

Wrth i arweinydd presennol Cyngor Sir Ceredigion, Ellen ap Gwynn gyhoeddi ei hymddeoliad roedd cyfle gan etholwyr ward Ceulan a Maesmawr ddewis cynghorydd newydd yn yr etholiad a gynhaliwyd ar 5 Mai. Yn dilyn ymgyrch frwd etholwyd Catrin M.S. Davies i gynrychioli'r ward yn enw Plaid Cymru ar y Cyngor Sir am y cyfnod nesaf.



Dyma'r canlyniad:

Catrin Davies (PC)	512
Dilwyn Lewis (A)	345

Catrin yw perchennog y cwmni cynhyrchu radio a theledu Unigryw a chafodd ei magu ar fferm yn Nhrefenter. Bu'n byw yn Nhal-y-bont ers 22 mlynedd gyda'i chymar Alun Elidyr a'u merch, Elan.

Mae Catrin yn gynghorydd cymuned, yn aelod o Bwyllgor

Rheoli Neuadd Goffa Tal-y-bont a hi yw cadeirydd presennol Papur Pawb.

Yn ystod yr ymgyrch fe nododd Catrin nifer o flaenoriaethau gan gynnwys gwthio am well mesurau diogelwch ar y ffordd, gwella cysylltiadau band eang a ffôn symudol, a mabwysiadu mesurau i leihau ein hól-troed carbon.


Nododd hefyd fod angen gwella a chynyddu'r cyfleoedd i bobl ifanc allu aros yng nghefn gwlad, hyrwyddo pwysigrwydd iechyd meddwl a lles mewn ardaloedd gwledig, ac annog newid er mwyn creu cyngor mwy rhagweithiol sydd yn gwrando ac yn cyfathrebu â'r trigolion.

Mewn datganiad i *Bapur Pawb* yn dilyn cyhoeddi'r canlyniad dywedodd Catrin 'Mae'n fraint cael cynrychioli Ceulan a Maesmawr a rwy'n ddiolchgar iawn i bob un am eu cefnogaeth a'r sgrysiâu difyr a gafwyd ar stepen y drws. Mi wnaf i fy ngorau i wasanaethu'r ardal gyfan ac i gynrychioli pawb a rwy'n edrych mlaen at lawer iawn mwy o sgrysiâu!

Roedd un ffactor newydd yn yr etholiad eleni sef bod pobol dros 16 yn cael pleidleisio ac yr ydw i'n falch o ddeall bod canran uchel wedi bwrw eu pleidlais yn yr etholaeth. Mwya'n byd y gallwn ni dynnu ein hieuenctid i mewn i bob agwedd ar ein cymdeithas ac i fod yn rhan o benderfyniadau pwysig yr ardal - gorau'n byd.

Bu'n gyfnod caled o ganfasio ond cafwyd gornest gyfeillgar yma a diolch i Dilwyn

CEFNOGI WCRÁIN



Ar gais Pwyllgor Rheoli Neuadd Goffa Tal-y-bont cytunodd Cyngor Ceulanamaesmawr i chwifio baner Wcráin yng nghanol pentref Tal-y-bont fel arwydd o gefnogaeth a chydymdeimlad wrth i'r rhyfel yn nwyrain Ewrop ddwysáu. Yn y cyfamser ymddangosodd murlun 'Cofiwch Mariupol' ar dalcen Hafan ar gornel y Romans yn Nhaliesin. Roedd Mariupol yn gartref i dros 400,000 o bobl, ond sydd erbyn hyn wedi ei ddifrodi yn gyfan gwbl gan y Rwsiaid.

Lewis am ei gwrteisi ar bob adeg. Diolch hefyd i staff y gorsafoedd pleidleisio am eu gwaith caled ddydd yr etholiad - roedd yn marathôn o ddiwrnod iddyn nhw.

Bydd gen i gyfeiriad e-bost swyddogol yn fuan a mi fyddaf yn ei rannu yn *Papur Pawb* ac ar y cyfryngau cymdeithasol fel bod gyda chi i gyd ffordd o gysylltu gyda fi'.

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:
Gwyn Jenkins
(01970) 832560
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
golygydd@papurpawb.com

Tynnu Iluniau:
Cysyllter â golygyddion y mis

GOHEBYDDION LLEOL

Tal-y-bont:
Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont
832592

Parsel Henllys:
Rhys Huws, Llwyn Onn
832076

Bont-goch:
Cathryn Lloyd-Williams
cat_yfoel@hotmail.com

Llangynfelyn:
Nigel Callaghan, Hafan, Tre Taliesin
832573

Eglwys-fach/Ffwrnais:
Non Griffiths
(01654) 781264

Rhwydweithiau cymdeithasol:
Ceri Morgan

CYMDEITHAS PAPUR PAWB

Cadeirydd:
Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont
832697

Is-gadeirydd:
Lisa Tomos, Awelon, Pentrebach
832773

Ysgrifennydd:
Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont
832344

Trysorydd:
Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont
832093

Tanysgrifiadau:
Bledwyn Huws, Henllan, Tal-y-bont
832448

Hysbysebion:
Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont

Dylunio:
Iolo ap Gwynn, Ceri Jones, Sion Pennant

Plygu'r Papur:
Gwenllian Parry-Jones; Beti Jenkins

Dosbarthwyr:
Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones;
Carys Briddon, John Evans

Cyhoeddwyd gan
Gymdeithas Papur Pawb.
Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru.

CYMRU

am yr holl wybodaeth am Papur Pawb ewch at ein gwefan
www.papurpawb.cymru
hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)

GOLYGYDDION

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Megan a Phil, gyda Siôn yn dylunio. Diolch iddynt. Golygyddion rhifyn Mehefin fydd y chwiorydd Rhian Nemes (rhian.nemes@btinternet.com) a Shan Evans. Y dyddiad cau yw 3 Mehefin a bydd y papur ar werth ar 10 Mehefin.

DIOLCH

Mae Cymdeithas Papur Pawb yn ddiolchgar iawn i Lyn Ebenezer, Maesyfelin, Tal-y-bont, sydd wedi bod yn dosbarthu Papur Pawb ym Machynlleth dros sawl blwyddyn bellach. Mae Lyn yn rhoi'r gorau i'r swyddogaeth a dymunwn 'ymddeoliad' hapus iddi.

THEATR BARA CAWS

Yn Perfformio

DRAENEN DDU

Neuadd Goffa Tal-y-bont
Nos Fawrth 24 Mai
7.30

Tocynnau £8
(£6 gostyngiad i ieuencid dros 14 oed)

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com

01970 832760

DYDDIADUR

MAI

13 'The Aberystwyth Wall' (Gwilym Morus-Baird a Ben MacCoed) 7.30-9 Cletwr

15 Bethel 10 Uno â Seion, Gwilym Tudur (Zoom) Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30 Bethesda, Tynant 2 Beti Griffiths

15-21 Wythnos Cymorth Cristnogol

19 Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 7 Gweddi Hwylol Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch (Tegwen Morris)

22 Bethel 10 Geraint Evans Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30

24 'Draenen Ddu' Theatr Bara Caws Neuadd Goffa Tal-y-bont 7.30 (Tocynnau £8/£6)

29 Bethel 10 Uno â Seion, Judith Morris (Zoom) Rehoboth 5 Gweinidog Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30

MEHEFIN

5 Bethel 10 Uno â Seion, Andrew Lenny (Zoom) Rehoboth 10 J. Tudno Williams Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 2.15 Cymun Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30

12 Bethel 10 Gwilym Tudur (C)

Cletwr Dydd Mawrth 1-4 'Clonc a Gweu'

Wythnos Cymorth Cristnogol 2022

Mae heriau ein byd yn aml a dyrys. O ryfel yn Wcráin, newyn yn Affganistan ac effeithiau'r argyfwng hinsawdd trwy'r byd i gyd, byddai'n hawdd troi'n fewnblyg a digalonni. Ond yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol (15-21 Mai) mae cyfle i ymateb yn gadarnhaol i'r heriau hyn. Trwy roi, gweithredu a gweddio, gallwn wneud gwahaniaeth go iawn.

Zimbabwe a gaiff sylw Wythnos Cymorth Cristnogol eleni. Mae partneriaid Cymorth Cristnogol yn gweithio yno er mwyn eu helpu i addasu eu dulliau amaethyddol. Mae Janet Zirugo (yn y llun) yn fam-gu 70 oed ac wedi gweld ei bywyd yn cael ei drawsnewid gan y technegau newydd.



Un peth yn benodol sydd wedi ei helpu yw'r hadau newydd y mae'n eu defnyddio erbyn hyn. Mae'r hadau hyn yn wydn iawn mewn cyfnodau sych a thrwy eu defnyddio gall Janet sicrhau cynydau da ar gyfer ei theulu. Mae wedi gallu troi ei thir sych a llychlyd yn ardd lawn llysiau lliwgar.

Dyma'r hyn y mae Wythnos Cymorth Cristnogol yn gallu ei gyflawni. Mae'r arian yr ydych yn ei godi yn hollbwysig yng ngwaith y mudiad o amgylch y byd.

Cewch fwy o wybodaeth ar ein gwefan caid.org.uk neu trwy ffonio ein swyddfa yng Nghaerdydd ar 029 2084 4646 neu trwy e-bostio cymru@cymorth-cristnogol.org <<mailto:cymru@cymorth-cristnogol.org>>

Bydd aelodau capeli lleol yn trefnu casgliad o ddrws i ddrws unwaith eto eleni felly cadwch olwg am yr amlen a ddaw trwy'r drws yn ystod yr wythnos 15-21 Mai. Os ydych yn dymuno gwneud cyfraniad yn uniongyrchol mae croeso i chi wneud ar-lein ar www.christianaid.org.uk/get-involved-locally/wales/cymru:

Mae problemau'n byd yn gymhleth ac yn rhyng-gysylltiol, ond trwy sefyll mewn undod gyda'n brodyr a'n chwiorydd, gallwn wneud gwahaniaeth go iawn i fywyd nifer.

ANGEN CYMORTH

Mae Cymdeithas Papur Pawb yn chwilio am berson sy'n barod i ddosbarthu Papur Pawb i Siop Mr News, Machynlleth.

A ydych yn teithio i neu drwy Machynlleth yn aml? A fedrwch ein helpu i ddosbarthu'r papur yno unwaith y mis? Wnaiff e ddim yn cymryd llawer o'ch hamser.

Rhowch wybod i'r golygydd cyffredinol (01970) 832560 neu at golygydd@papurpawb.com

Cysegru'r Fynwent

Cyfrifoldeb Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr yw'r fynwent gyhoeddus ac mewn cyfarfod y llynedd nodwyd y byddai angen trefnu i ymestyn ffiniau'r fynwent ar gyfer y dyfodol. Cafodd y rhan sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd ei gysegru yn 1995 ac er mwyn defnyddio gweddill y lleoliad byddai angen trefnu seremoni i gysegru rhan ychwanegol. Aed ati i drefnu seremoni gysegru o dan arweiniad Esgob Tyddewi ac ar ôl gohirio ddwy waith oherwydd llifogydd a Covid yr oedd yn gryn ryddhad felly i groesawu'r Gwir Barchedig Ddr. Joanna Penberthy, Esgob Tyddewi a'i chyd-glerigwyr i gysegru rhan ychwanegol i'r fynwent gyhoeddus ar ddydd Mawrth, 26 Ebrill.

Dechreuwyd gyda phawb a oedd yn bresennol yn cyd-lefaru Salm 23 ac o dan arweiniad yr Esgob aed ymlaen gyda'r seremoni ffurfiol. Cyflwynwyd y petisiwn i'r cysegriad ar lafar, gan y Cyngorydd Megan Mai, Cadeirydd y Cyngor Cymuned a chafwyd darlleniad pellach o'r salmau gan y Parchedig Gwilym Tudur, Capel Bethel. Cafwyd seremoni urddasol a bendithiol a gellir cadarnhau fod y cyfan o dir y fynwent sydd o fewn y ffiniau presennol wedi ei gysegru'n briodol.

Y ddiweddar May Royle

Trist yw nodi marwolaeth Mrs May Royle a oedd yn un o danysgrifwyr Papur Pawb ac yn gyfrannwr cyson i'r Papur ar y dechrau. Yn Totton, Southampton, yr oedd yn byw ac yr oedd yn mwynhau cadw cysylltiad â'r ardal drwy ddarllen y papur bob mis.

Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch

Nos Iau, Ebrill 21ain cyfarfu aelodau'r gangen yn y Neuadd Goffa i glywed Brenda Jones o gangen Rhydypennau yn dangos i ni sut roedd yn defnyddio cynnyrch ei gardd i wneud pob math o siytni a jamiau blasus gan ddefnyddio ffrwythau mwy ecsotig weithiau i amrywio'r blas. Cafwyd detholiad o'r melys a'r sawrus gan Brenda, ac roedd wedi paratoi tameidiau i brofi i bawb. Cawsom gyfle i gymharu'r seigiau, pa un oedd orau, a'i'r siytni afal neu'r un pwmpen, bricyll a sinsir, neu eto y cranberi, mango a phinafal. Aeth ymlaen

Pobl a Phethe



Y Parchedig Gwilym Tudur, gweinidog Capel Bethel, Y Parchedig Shirley Murphy Caplan yr Esgob, Y Gwir Barchedig Ddr. Joanna Penberthy, Esgob Tyddewi, Megan Mai, Cadeirydd Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr, Yr Hybarch Eileen Davies, Archddiacon Aberteifi.

Pen-blwydd Arbennig

Dymuniadau gorau i Evan Jenkins, Pengwern, Tal-y-bont (Carreg Cadwgan) fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig iawn ddiwedd mis Mai.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Siwan Evans, Pant Coch, sydd wedi colli ei thad.

Diolch

Dymuna Elisabeth, Eleri, Mererid a'r teulu, Cwmudw ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a phob atgof a stori a rannwyd ar ôl colli Dilwyn.

Dathliad Arbennig

Pob dymuniad da a llongyfarchiadau i Laura Smith, Cae Bitffald, Tre'r Ddôl ar ei phen-blwydd yn 90 oed.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Mrs Hazel Crowther, Tŷ Coets, Penpompren, Tal-y-bont ar farwolaeth ei thad yn ddiweddar.

18 oed

Llongyfarchiadau i Libby Foulkes, Voelas Villa, Taliesin ar ei phen-blwydd yn 18 oed. Gobeithio dy fod wedi mwynhau'r dathlu Libby.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Mina Morel, Llawr-y-glyn, Bont-goch, sydd wedi colli ei thad yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Rhodri Lloyd-Williams, Moelgolomen, Bont-goch, a ddathlodd ben-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Ffit Cymru

Llongyfarchiadau i Ruth, merch Eric a Liz Roberts, 12 Maes-y-deri, Tal-y-bont ar ei hymdrech ragorol ar raglen S4C Ffit Cymru. Mae'n siŵr ei bod yn

ysbrydoliaeth i lawer wrth iddi wynebu'r sialens o golli pwysau o dan lygaid parhaol y camerâu. Mor braf hefyd oedd gweld cyfweiliad gyda Liz ar un o'r rhaglenni.

Pasio Prawf

Llongyfarchiadau i Billy Swanson, 10 Dôl Pistyll, Tal-y-bont ar basio ei brawf gyrru.

Croeso

Croeso i Einion Williams a Tirion Evans sydd wedi symud i fyw i 1 Tan-y-Graig, Tal-y-bont.

Pen-blwydd Arbennig

Llongyfarchiadau i Jenny Fothergill ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Teulu Bach Newydd

Croeso i'r byd i Lleucu Wyn a Nico Wyn, efeiliad bach i Kara a Sam Penfold, brawd a chwaer newydd i Ralfi a Dyfi, ŵyr ac wyres i Karen a Lee a gor-ŵyr a gor-wyres i Gwyndaf a Jano Evans, Maes-y-deri, Tal-y-bont.

Cartref Newydd

Croeso i Tyrone a Gemma sydd wedi symud i'w cartref newydd yn Hill View, Penlôn, Tal-y-bont.

Llwyddiant i Gruff

Llongyfarchiadau i Gruff Lewis, Tabernacl, Tal-y-bont ar ennill ras feics enwog Pont Hafren ac am fod yn rhan o dîm buddugol *WIV Sungod*. Dyma'r hanner canfed tro i'r ras gael ei chynnal ac mae rhai o seiclwyr amlycaf Prydain ymhlith y cyn-enillwyr.

Yn Ôl ar y Llwyfan

Mae Cwmni Drama Licris Olsorts yn perfformio a chystadlu eto wedi hoe yn ystod y pandemig. Enillodd y cwmni yn Ngŵyl Ddrama Eisteddfod Môn gyda drama fonolog gan Sion Pennant a Gweni King yn rhannu'r wobwr am yr actor mwyaf addawol. Pob lwc iddynt yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron.

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Salon Leri
Pob agwedd o drin
gwallt gan Richard
10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674

Ysgol Tal-y-bont

Cadw'n Heini Cadw'n Iach

Yn y rhifyn blaenorol o *Papur Pawb*, fe wnaethon ni grybwyll ymrwymiad yr ysgol i seiclo, sgwera a cherdded i'r ysgol. Enw'r cynllun oedd 'Strolio a Rholio' ac roedd yn agored i ysgolion ar hyd gwledydd Prydain i fod yn rhan o'r gweithgareddau. Yn ddiweddar cyhoeddwyd y canlyniadau terfynol ac maent yn galonogol iawn.

Fe wnaethon ni ddod yn 97fed allan o 655 o ysgolion gwledydd Prydain yn y categori Ysgolion Cynradd Bach ac Ysgol Tal-y-bont oedd y gorau o ysgolion Ceredigion. Ein sgôr ar gyfartaledd oedd 80.27% - sy'n hollol wych! Diolch i bawb am gyfrannu at y gweithgareddau pwysig yma.

Pêl-droed yr Urdd

Gyda'r cyfyngiadau Covid wedi llacio mwy ar ddechrau'r tymor yma, mae'n braf gallu dweud bod pethau'n ymddangos ychydig yn fwy 'normal' yn yr ysgol erbyn hyn. Ac un digwyddiad y mae'r plant wedi bod yn edrych ymlaen ato ers amser yw cael cymryd rhan mewn cystadlaethau chwaraeon.

Rydym yn ffodus bod Urdd Gobaith Cymru yn trefnu pencampwriaethau ac yn lleol i ni aeth dau dîm i gynrychioli'r ysgol ar Gaeau Blaendolau yn ystod y mis. Bu'r ddau dîm yn cystadlu'n frwd unwaith eto yn erbyn ysgolion eraill rhanbarth Ceredigion, gan chwarae'n arbennig o dda. Roedd hi'n hyfryd gweld y cyd-chwarae yn enwedig o gofio bod y rhan fwyaf o'r garfan ym Mlwyddyn 5. Roedd y tîm merched yn agos iawn i fynd ymlaen i'r rowndiau terfynol – da iawn chi.

Ar ddiwedd y cystadlu, roedd hi'n braf i'r plant gael cyfleoedd i chwarae gemau cyfeillgar yn erbyn ysgolion eraill y cylch hefyd.

Hoffwn ddiolch o galon i Miss Watkin am bob cymorth ar y dydd ac am hyfforddi'r merched.

Siarter Iaith

Fel rhan o godi ymwybyddiaeth am y Siarter Iaith, bu dosbarth Blwyddyn 5 a 6 yn tynnu ffotograffau o'u milltir sgwâr, ac fe gafwyd cymaint o luniau arbennig fel y penderfynwyd cynnal cystadleuaeth i benderfynu ar y goreuon. Er mwyn bod yn deg gyda phawb gofynnwyd i un o gyn-ddisgyblion yr ysgol, sef Jeno Lewis, i feirniadu. Mae'n amlwg bod y lluniau wedi plesio Jeno'n fawr gan ei bod wedi danfon neges yn dweud, "Rwyf wedi mwynhau'n fawr gallu gweld fersiwn pawb o'u hardal leol. Fe wnaeth y cyfan wneud i mi deimlo bach yn home-sick!".

A dyma'r canlyniadau –

1af i Leah H am ei llun ardderchog o ardal Nant-y-moch. Dwi'n siŵr eich bod yn cytuno ei fod yn edrych yn hyfryd mewn ffrâm.

2il i Leah C am ei llun o'r cwningod


3ydd i Swyn am ei llun o'r machlud

Diolch yn fawr i Jeno am gytuno i feirniadu a da iawn chi blant – mae'r cyfan oll yn gasgliad ardderchog.

Efaciwîs

Mae ein prosiect am fywyd efaciwîs yn mynd o nerth i nerth. Yn dilyn ein gofyniad ychydig fisoedd yn ôl am hanesion y plant hyn yn y pentref, rydym wedi creu cysylltiad gyda Gwen Billingham gynt o Fferm Alltgoch, ac mae'r stori ryfeddol sydd ganddi wedi ysbrydoli'r plant wrth fynd ati i greu gwaith ar y cyfnod. Bydd mwy o wybodaeth am y cysylltiad yma yn y rhifyn nesaf o *Papur Pawb*.

Ond yn ystod y mis yma, rydym wedi parhau i gydweithio gyda Bethan a Kate o Adran Hanes Prifysgol Aberystwyth ar y prosiect "Lleisiau Pobl Mewn Rhyfel Pobl 1939-1945", i wella ein dealltwriaeth o amodau byw yr efaciwîs. Y tro yma, fe wnaeth y plant adeiladu bocsys i gadw'r mwgwd nwy, rhywbeth hanfodol yn y cyfnod hwnnw. Rydym yn edrych ymlaen at groesawu



YMDRECH LEW TÎM TALWRN TAL-Y-BONT

Er iddynt gael sgôr campus o 73.5 yn ail rownd Talwrn y Beirdd colli o hanner marc i Dros yr Aber oedd tynged Tîm Tal-y-bont, o dan gapteiniaeth Gwenallt Llwyd Ifan. Cael a chael oedd hi tan y diwedd gyda'r Meuryn yn canmol y ddau dîm am safon y cynnyrch. Ni fydd taith i'r rownd derfynol yn Nhregaron felly, ond gallant edrych ymlaen at gystadleuaeth y flwyddyn nesaf gyda hyder. Bu peth dryswch ar ddiwedd y darllediad wrth i Ceri Wyn Jones gyfrif y marciau yn anghywir a chyhoeddi bod Tal-y-bont wedi colli o farc, sy'n profi fod hyd yn oed y gorau yn methu weithiau. Ymlaen at 2023.

Trydargerdd: Epigram Dychnol

Er trymed y pwysau mewn ambell waled,
rhyfeddol o fach yw maint y boced.

Anwen Pierce

Cwpled caeth yn cynnwys enw unrhyw lysieuyn

Dyna wast o dan y nen
yw bwtsiwr â chabetjen.

Gwenallt Llwyd Ifan

Limrig yn cynnwys y llinell

'Yn rhywle sydd draw dros yr enfys'

Mae bro lle mae'r tasgau'n bleserus
A neb o'r talyrnwyr yn nerfus,
Marciau llawn pob tro ddaw
Gan foi ffeind ar y naw
Yn rhywle sydd draw dros yr enfys.

Anwen Pierce

Cywydd: Criw

Miloedd o bennau melyn
a'r awyr las grea lun
o wanwyn o dan faner.
Wyneb lawnt o flodau blêr,
wedi'u dal dan fandaliaeth
awel fain y dwyrain. Daeth
drwyddynt ryw wynt yn llawn trais
i'w malu'n enw malais.
A'u teulu fel petalau'n
y pridd, mae'r storm yn parhau
i godi, a llenwi llun
â miloedd pennau melyn.

Gwenallt Llwyd Ifan

Pennill ymson trefnydd digwyddiadau

Fe wiriaist pob manylyn
Ar boster ac ar docyn
Ond un gwall bach a'th faglodd di
Wrth groesi yr Iorrdonyn.

Phil Davies

Bethan a Kate yn ôl i'r ysgol cyn hir eto.

Dewiniaid Digidol

Yn ystod y mis, bu ein Dewiniaid Digidol, Martha a Hedydd yn cael hyfforddiant gan Swyddogion yr Adran Addysg ar sut i ddefnyddio gêm Minecraft gyda'u cyfoedion. Mae'n amlwg fod y sesiwn wedi plesio gan eu bod wedi mynd ati'n syth i gynnal sesiwn o adeiladu fferm rhithiol yn y dosbarth a chynnal cystadleuaeth i weld pwy oedd yn gallu adeiladu'r fferm orau mewn 20 munud – gwyh ferched, tipyn o gamp i gadw pawb ar dasg a sicrhau fod pawb wedi mwynhau.

Plant Mawr yn Helpu Plant Bach

Mae hi wastad yn bleser i weld y ffordd y mae plant hynaf yr ysgol yn mynd ati i helpu'r plant lleiaf gyda'u gwaith. Yn ddiweddar, aeth criw o Flwyddyn 5 a 6 i Ddosbarth Blwyddyn 1 a 2 i gynnal sesiynau Minecraft, ac wrth gwrs, roedd y plant lleiaf wrth eu boddau'n dysgu technegau a gemau newydd.



Tîm Talwrn Tal-y-bont yn paratoui ar gyfer yr ornest ar Zoom: Phil Thomas, Phil Davies, Anwen Pierce a Gwenallt Llwyd Ifan.

Cân ysgafn: Canslo

Gwahoddiad ddaeth pa ddiwrnod i gartref Phil y bardd,
'Ni ishe chi fodelu ein Speedos newydd hardd'.
Cynigiwyd mil o bunnoedd a thocyn i Hong Kong.
Derbyniais ef yn ebrwydd; beth allai fynd yn rong?

Gwnes baratoi yn ddyfal, a wacso'm corff i gyd,
Rhaid edrych ar fy ngorau cyn mynd i ben draw'r byd.
Botocsiais rownd fy llygaid, a'm heiliau gafodd blwc,
Ac eilliais i fy mhen yn llwyr nes edrych fel wy clwc.
Fe irais pob cyhyryn, ces bedicure cwic,
Astudiais wefan Hunks Today i ddysgu pob un tric.

Ond yna daeth dadrithiad, derbyniais neges frys,
Fe ganslwyd yr apwyntiad cyn i mi dynnu nghrys.
Gwahoddwyd Phil anghywir, rwyf nawr yn deall, cans
Mae Phil y Fet yn Hong Kong bell yn prancio yn ei bans.

Phil Davies

Telyneg: Malurion

Mis Mawrth 2022 ger y wal goffa COVID ar lannau'r Tafwys

Cwmp y calonnau
yn storom ddail i'r llawr.
Gwanwyn yw hi
ond mae'r cysgodion
pinc a choch
yn creu Hydref barhaus ar y wal
er i'r lliwiau bylu yn yr haul.

Piga colomen ei ffordd
rhwng y mygydau ar y palmant
a rhwydwaith cysgodion
canghennau'r coed.

Nid ydynt wedi blaguro ond mae 'na liw yno,
dau falwn yn gaeth yng nghrafangau'r brigau,
un glas ac un melyn.

Arhosant yno,
er i'r lleisiau ddiflannu i'r gwynt.

Gwthiais ymlaen.
Syllais drwy lygaid cul
ar y llwybr sydd o mlaen i.
Mae gen i rywle i fynd.

Phil Thomas

Englyn: Tecwyn Ifan

Y llais tyner sy'n ein herio – drwy fynd
i'r Dref Wen a'n huno
mewn cân, a'r coda'n cydio
i'r tiwn gael ailgodi'r to.

Anwen Pierce

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD REHOBOTH



Aelodau Cymdeithas Chwiorydd Rehoboth ym Melin Meirion

I gloi'r tymor am eleni, aeth wyth o'r aelodau ar daith ar brynhawn Mawrth, 12 Ebrill, i ymweld â Melin Meirion, Dinas Mawddwy. Wedi cyrraedd yno, cafwyd peth amser i edrych o amgylch (a phrynu!) yn y siop helaeth, cyn eistedd wrth y bwrdd am 3 o'r gloch i fwynhau te prynhawn bendigedig. Roedd yn hyfryd cael bod gyda'n gilydd i fwynhau'r te a'r cymdeithasu, a phawb wedi cael prynhawn wrth eu bodd.

Cyn gadael, aethom i weld pont hynafol Minllyn dros yr afon Ddyfi gerllaw, sy'n dyddio'n ôl i'r ail ganrif ar bymtheg. Credir iddi gael ei hadeiladu tua'r 1630au, a thalwyd am ei hadeiladu gan Dr John Davies (1567-1644), rheithor Mallwyd, er mwyn i bynfeirch dramwyo dros yr afon yn hwylus wrth gludo nwyddau. Roedd Dr John Davies yn un o ysgolheigion amlycaf yr oes yng Nghymru, a chredir iddo fod â rhan yn cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg yn 1620, a'r Llyfr Gweddï Cyffredin yn 1621.

Cyhoeddodd hefyd ei lyfr ei hun o ramadeg y Gymraeg. Bu'n rheithor ym Mallwyd o 1604 hyd nes ei farwolaeth yn 1644, ac mae'n debygol iddo dalu am adeiladu tair pont yn ardal Mallwyd.



Pont Minllyn, Dinas Mawddwy

Myrna Bailey, Arosfa, Tre Taliesin



Absenoldeb Myrna o'i gardd yn ystod y tywydd godidog 'na a gawson ni ar ddechrau'r gwanwyn oedd yr arwydd cyntaf efallai nad oedd popeth yn iawn gyda hi. Serch hynny, dipyn o sioc oedd clywed am ei hymadawiad yn dawel yn ei chartref ganol mis Ebrill.

Roedd Myrna'n byw a bod am ei gardd. Byddai yno o fore gwyn tan nos weithiau ac mae sawl planhigyn yn ein gardd ni sydd wedi'i feithrin y drws nesa yn ei gardd hithau.

Cymeriad unigryw oedd hi a hyd yn oed ychydig yn amgen yn ei ffordd ei hun. Roedd wedi ymgartrefu yn Nhre Taliesin o ganolbarth Lloegr flynyddoedd maith yn ôl ac wrth ei bodd yma. Yn gynnes, yn glên a ffordd arbennig ganddi o edrych ar y byd a'i bethau, roedd yn gymdoges hawdd gyrru ymlaen â hi. Yn artist medrus, byddai'n arlunio blodau o bob math a golygfeydd lleol ymhlith pethau eraill, gan greu cardiau hyfryd hefyd. Ychydig flynyddoedd yn ôl, rhoddodd un o'i phrintiau i ni yn darlunio'r lôn las sy'n rhedeg rhwng ein tai a neb llai nag Emrys Humphreys yn pwyso ar y giât. Cofrodd heb ei hail o gyfnod na ddaw byth yn ôl.

Roedd Myrna hefyd yn dipyn o ddewines ar y gwyllyll gan

Cyngor Cymuned Llangynfelyn

Cyfarfod Misol Mis Mawrth 2022 – Nos Lun Mawrth 14eg yn Llanfach.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cynghorydd Donna James.

Cyn i'r cyfarfod gychwyn yn swyddogol, croesawyd y Rhingyll Hanna Edwards, Heddlu Aberystwyth i'r cyfarfod. Cafodd y Cynghorwyr gyfle i drafod eu pryderon am nifer o bethau yn y gymuned e.e diogelwch y ffordd o Dre'r Ddôl i Ynyslas a nifer y damweiniau sydd wedi bod yn ddiweddar, y parcio a llif y cerbydau di-ddiwedd ar hyd y A487 drwy Taliesin. Yn ogystal a'r parcio peryglus wrth ymyl mynedfeydd y brif ffordd.

Roedd y Rhingyll am ymchwilio ymhellach i'r cwynion ac am adrodd yn ôl i'r Cyngor.

Llwybr rhwng Talybont a Thaliesin

Cynllun ar y cyd gyda Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr a Llangynfelyn

Erbyn hyn mae darn tir Dafydd ac Ellyw Jenkins wedi cael ei ffensio – ond rydym ar ddeall bod y tir ochor Mr Wigley yn dal yn nwylo'r cyfreithiwr yn aros prawf ewyllys. Rydym hefyd, fel Cyngor, yn dal i aros am fwy o fanylion ynglŷn â datblygiad cyffredinol y llwybr.

Llinellau Melyn yn Nhaliesin

Yn dilyn diffyg gwybodaeth, bydd angen gofyn unwaith eto i Elin Jones AS, beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf gyda NMWTRA ynglŷn â llinellau melyn sydd i fod i gael eu peintio mewn mannau penodedig yn y pentref.

Gan nad ydym wedi cael ateb, cytunodd pawb, i ysgrifennu eto at Ceredigion i gwyno am gyflwr wyneb y ffordd drwy pentref Tre'r Ddôl.

Cytunwyd ar y cofnodion yma gan y Cynghorwyr yn bresennol yng nghyfarfod Mis Ebrill.

Gwefan y Cyngor: cyngor-llangynfelyn-council.weebly.com

Y LLEW GWYN Tal-y-bont

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00

Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs: £7.95 Dau gwsr £9.95)

Ystafelloedd ar gael

01970 832245
garethwhitelion@outlook.com

w eu creaduriaid bach er budd elusen sy'n helpu plant â gwefus fylchog mewn gwledydd lawd i wenu drwy lawdriniaeth. Mi fydden ni'n gwenu'n aml yng nghwmni Myrna dros y blynyddoedd a mawr yw'r bwch a adawyd ganddi yma.

Dymunwn y gorau i'w meibion Richard a Michael a gweddill y teulu yn sgil eu profedigaeth. Da yw deall bod Richard, sydd ar hyn o bryd yn byw yn y tŷ y drws nesa i gartref ei fam yn

Afiath

Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiath@aol.com

bwriadu aros yn Nhre Taliesin a bydd y dilyniant yn gysur i bawb a gafodd y fraint o'i hadnabod.

MD

John Dilwyn James



(Y deyrnged a draddodwyd gan Eleri a Mererid yn y gwasanaeth yn Eglwys Sant Mihangel, Lledrod ar 7fed Ebrill.)

Doedd Dad ddim yn un am deyrnged – roedd e' o'r farn bod ei deulu a'i ffrindiau yn ei nabod; a bod gan bawb ei atgof neu stori ei hun (fel ni wedi clywed fel teulu ers ei golli).

Ond, i'r rheiny ohonoch oedd ddim yn nabod ei gefndir – er ei fod yn cael ei nabod fel

Dilwyn Henbant – cafodd ei eni yn y Lodge yng Nghilgerran, ger Aberteifi, yn nhŷ ei fam-gu. Buodd ef a Mam-gu yna am gyfnod cyn dod yn ôl i Henbant a hynny cyn i'w frawd Aneurin gyrraedd ac yna Eirwen ei chwaer toc wedyn.

Roedd Dad yn falch o lwyddiannau ei frawd a'i chwaer – yn ôl fe – fe ddysgodd popeth iddyn nhw! Ac er mai fe oedd yr hynaf – roedd wrth ei fodd (diolch i liw ei wallt!), bod pobl yn meddwl mai fe oedd yr ieuengaf!

Pan gyrhaeddodd ei neiaint a'i nithoedd – roedd e' wrth ei fodd yn eu diddanu, yn treulio amser gyda nhw a rhannu storïau gyda nhw am y cyfnod pan oedd eu rhieni'n iau.

Mae'r un peth yn wir am y genhedlaeth ddaeth wedyn – plant ei neiaint a'i nithoedd. Byddai wrth ei fodd yn mynd i'w casglu o'r ysgol feithrin, neu'n troi lan yn gynnar i gwrdd nhw o'r bws ysgol – yn awyddus i helpu ac i joio treulio amser gyda nhw.

Dechreuodd Dad ei addysg yn Ysgol Lledrod, er, touch-and-go oedd ei ddiwrnod cyntaf... Oedd e'n meddwl bod e wedi cael digon, wir, erbyn diwedd y bore. Bant â fe, yn groes y caeau, adre i Henbant. Wnaeth Mam-gu ei martsio fe nôl, a hynny, ar ôl iddi roi cinio iddo fe, wrth gwrs...

Wedi iddo orffen yn Ysgol Uwchradd Tregaron bu'n dilyn cyrsiau yn Felin-fach, a fan hyn ddysgodd e' werthoedd y gwnaeth e' basio 'mlaen i ni – i ofalu am bethe ac i drwsio yn hytrach na thaflu. Dysgodd sawl sgil a chreffft, a byddai Dad yn fodlon troi ei law at unrhyw beth.

Wedi dweud hynna, cafodd sawl anffawd fach... bron colli ei law mewn chain yn 13 wrth newid teiar... chainsaw i'r ben-glin... pinsio top ei fys bant... tacl lletchwith gan ddafad...

(Byddai rhai yn dweud mai dienaidd oedd Dad...)

Torri asgwrn neu fys, beth bynnag y sefyllfa – doedd e' byth yn un i achwyn am ddim.

Un o gryfderau a diddordeb mwyaf Dad oedd cneifio, a dwi'n siŵr bod sawl un yn chwarae "spot the Dilwyn" pan oedd darllediad o'r sied gneifio yn y Royal Welsh ar y teledu. Efallai bod rhai

ohonoch chi'n chwarae "spot the Dilwyn" o'i gyfnod fel beirniad preswyl ar Pentymora. Yn yr "off-season", byddech chi'n ei weld yn mesur cae yn barod ar gyfer cystadleuaeth aredig.

Buom yn ffodus iawn o gael dathlu priodas Ruddem Mam a Dad llynedd, ac er bod nhw gyda'i gilydd cyhyd, roedden nhw dal i ymddwyn fel plant – tynnu coes, dad wrth ei fodd yn rhoi sypreis i Mam, mynd am spins bach, "rhannu'r" gyrru i fynd i barti neu ddigwyddiad (dad ar y ffordd yna, mam ar y ffordd nôl!). Cawsom ein magu mewn cartref llawn hwyl gyda'r ddau.

Boi ei filltir sgwâr oedd Dad, just bod ei filltir sgwâr yn cwmpasu Lledrod a Thalybont. Roedd yn fodlon iawn mynd ar dripiâu – gyda ni; gyda'i gyfnithered; yn passenger gyda'i nai i'w atgoffa o'r Speed limit; mynd fan hyn a fan draw gyda Chôr Caron, yna'n hwyrach gyda Pharti Camddwr; neu fynd ar drip cymdeithas. Ond yr unig dro wnaeth e' erioed hedfan oedd pan enillodd Mam raffl yn sioe dre i fynd mewn hofrennydd - yr ultimate spin i edrych dros ben cloddiau.

Wnaethon ni ddeall yn go sydyn pan gyrhaeddodd James, ei wŷr, ein bod ni gyd wedi cael demotion – y ddau yn ffrindiau mawr, kannwyll ei lygaidd, a chael gwneud pethau byddai'r ddwy ohonom ni ddim yn breuddwydio cael gwneud. O bob enw cafodd ei alw erioed, Dad-cu o'dd y ffefryn.

"Nid dy ddewis di yw pryd y byddi farw nac ym mha fodd. Dy ddewis di yw sut y byddi fyw."

Wnaeth Dad ddewis byw mewn ffordd ddi-ffws, oedd e'n fodlon ei fyd, yn joio jôc, yn hapus wrth wrando ar stori fach ac yn barod iawn i helpu eraill. Oedd e'n gartrefol iawn ble bynnag oedd e'; boed rownd bwrdd gyda phaned neu wydriad yn ei law, a byddwn ni fel teulu a ffrindiau yn teimlo bwlch mawr ar ei ôl.

Diolch Dad.

Rhian

trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612
07835 525 553

CANOLFAN
M.O.T.

**HUW
LEWIS**

**M.O.T.
CENTRE**

**Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT**

HUWLEWISTYRES.COM

TEIARS

**HUW
LEWIS**

TYRES

Glanyrafon

Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

**ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000
LLANBED 01570 422221**

argraffu da
am bris da

yLolfa

holwch Paul am bris ar paul@yloffa.com
01970 832 304 www.yloffa.com

Garej Davmor

Petrol a Diesel • Gwasanaethau, trwsio, MOT, a theiars
Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
Brechdanau poeth ac oer • Siop Gyfleustra drwyddedig
Y gareg gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont

www.davmorgarage.co.uk
Ffôn: 01970 832278

Diolch Ellen

Ar ôl 23 mlynedd yn cynrychioli'r ward hon yng ngogledd Ceredigion, a deng mlynedd fel Arweinydd y Cyngor, mae Ellen ap Gwynn yn ymddeol. Bu gohebydd y papur yn ei holi.



Wrth edrych yn ôl, beth oedd yr uchafbwyntiau a'r pethau yr ydych yn fwyaf balch ohonyn nhw?

Dwi'n credu mai un o'r uchafbwyntiau, er efallai yn swinio'n chwithig, oedd ymateb y gymuned i'r llyfogydd annisgwyl a gawsom ym Mehefin 2012. Roedd yr ysbryd cymunedol a'r awydd i helpu ymhob dull a modd yn rhywbeth na wna i byth anghofio ac a roddodd falchder mawr i mi mod i'n cynrychioli ward mor arbennig. Diolch i bobl Tal-y-bont a gogledd y sir,

enillais wobwr Gwleidydd Lleol y Flwyddyn yn 2012. Mae cartŵn gan Mumph ar wal y gegin i'm hatgoffa o'r llyfogydd!

O ran y ward i gyd, sydd wrth gwrs yn cynnwys cymunedau Ysgubor y Coed, Llangynfelyn a Cheulanamaesmawr, roedd y cyfle i dynnu arian Ewropeaidd i lawr o dan cynllun PLWM yn uchafbwynt. Llwyddwyd i baratoi cyfres o baneli dehongli i'w gosod ym mhentrefi'r ward i adrodd hanes y diwydiant plwm a fu mor bwysig yn yr ardal ers dyddiau'r Rhufeiniaid. Erbyn hyn, mae'n anodd credu ein bod yn byw mewn ardal ôl-ddiwydiannol, ond daeth agor un o'r hen siafftau yng nghanol Tre Taliesin a rhai eraill yn Brynarian ac ar Allt y Crib â hyn yn fyw iawn i ni gyd.

Soniwech wrthym am rai o'r heriau a'r penderfyniadau anodd y bu'n rhaid ichi eu gwneud yn ystod cyfnod y pandemig.

Cefais fy ethol yn Arweinydd ym Mai 2012 pan oedd y cyfnod llymder wedi taro. Erbyn y mis Hydref daeth y sioc bod ein setliad ariannol yn gofyn ein bod yn torri £13 miliwn oddi ar ein cyllideb. Dyna ddechrau ar gyfnod o wyth mlynedd a welodd dorri £50 miliwn oddi ar y gyllideb graidd. Cyfnod a welodd benderfyniadau anodd ynglŷn â pha wasanaethau oedd i'w cadw a pha rhai y gellid eu hepgor. Gwelwyd crebachu ar wasanethau'r Cyngor a thorri ar ein gweithlu, gostyngiad o tua 250 o swyddi. Ar yr ochr gadarnhaol, rhoddodd gyfle i ni ailystyried strwythr y Cyngor ac ailgynllunio gwasanaethau mewn ffordd fwy cynaliadwy ac addas ar gyfer gofynion heddiw. Ond, er hyn, dim ond hyn a hyn o doriadau y gellir eu goddef ac roeddwn yn hynod falch eleni ein bod ni wedi derbyn cynnydd yn ein cyllid sydd wedi golygu na fydd dim mwy o doriadau yn y flwyddyn sydd i ddod.

Yna ym Mawrth 2020 daeth Covid ar ein traws. Fel pawb arall, bu'n rhaid dysgu gweithio ar-lein, a chynnal cyfarfodydd o bell. Llwyddwyd yn rhyfeddol i addasu a chynnal holl bwyllgorau'r Cyngor Sir ar-lein. Rhaid talu teyrnged i'r staff am sicrhau bod gwaith y Cyngor o gynnal yr holl wasanaethau i'n trigolion wedi parhau. I mi, bu hwn yn gyfnod o weithio'n agos gyda Gweinidogion Llywodraeth Cymru a'm cyd-Arweinyddion ar draws Cymru, yn ogystal ag efo'n partneriaid yn y sector cyhoeddus ac yn y trydydd sector i sicrhau ein bod yn gwneud ein gorau ar y cyd er lles pawb.

Bu gweld Ceredigion yn arwain siroedd Cymru wrth osod y drefn Profi ac Olrhain yn ei le a hefyd yn mynnu ein bod yn paratoi bocsys bwyd efo cynnyrch lleol i'r bobl fwyaf bregus yn uchafbwyntiau yn y cyfnod yma.

Pa agweddau ar waith cynghorydd ac arweinydd y Cyngor sydd wedi rhoi'r boddhad mwyaf ichi.

Gwaith cynghorydd yn ei hanfod yw gwrando ac ymateb i broblemau etholwyr ac estyn llaw i'w helpu lle mae modd. Fel aelod lleol dwi wedi mwynhau cydweithio gyda'r tri Chyngor Cymuned a bu'n bleser bod yn Lywodraethwr ar Ysgolion Tal-y-bont a Llangynfelyn. Cefais y boddhad mwyaf yn helpu rhai o bobl ifanc yr ardal ddod o hyd i dai cymdeithasol er mwyn iddynt gael byw yn eu cynefin. Dwi wir yn gobeithio y gwelwn ni godi mwy o dai ar Maesyderi cyn bo hir fel bod mwy ohonynt yn cael

cyfle i fyw yma. Mae rhoi cyngor ar geisiadau cynllunio yn faes arall sydd yn bwysig a bu cael caniatâd i ddatblygu stad Dôl Pistyll yn uchafbwynt o ran denu mwy o deuluoedd ifanc i'r pentref ac o ran cael llain o dir fel maes parcio i'r ysgol oddi ar y ffordd fawr. Roeddwn yn falch i helpu dod â maes chwarae Bont-goch i fodolaeth wedi i Dŵr Cymru gyfrannu llain o dir. Mae hwn wedi rhoi adnodd cymunedol oedd gwir ei angen i'r pentref. Yn anffodus ni lwyddwyd i gael maes chwarae yn Llangynfelyn nac i gynnal maes pêl-droed i'r ardal.

Fel Arweinydd y Cyngor, yr uchafbwynt i mi oedd arwain ar sefydlu Partneriaeth Tyfu'r Canolbarth i hyrwyddo tyfiant economaidd Ceredigion a Phowys a denu Bergen Dŵf a buddsodiad o £110 miliwn dros y 10 mlynedd nesaf. Ar ran Ceredigion, cefais y fraint o arwyddo'r cytundeb rhwng y ddwy Lywodraeth a'r ddwy sir ar ddechrau mis Ionawr eleni. Yn ogystal, roeddwn yn falch iawn taw Ceredigion oedd un o'r sioedd cyntaf i sefydlu cynllun i groesawu ffoaduriaid o Syria. Erbyn hyn mae dros 50 wedi sefydlu yma ac wedi cael croeso twymgalon. Yn anffodus, er yr awydd i helpu, nid yw polisi fisa Llywodraeth y DU yn helpu pobl Wcráin rhag ffoi yma oddi wrth erchyllterau'r rhyfel yno.

A ydych yn rhag-weld y bydd Ceredigion yn gorfod uno i greu awdurdod mwy o faint yn y dyfodol?

Mae'r syniad yna wedi chwythu ei blwc erbyn hyn. Mae'r siroedd i aros fel ag y maent ond mae na ddeddfwriaeth newydd yn ei lle i greu strwythurau newydd i weithio'n rhanbarthol dan ambarel Pwyllgorau Corfforaethol ar y Cyd. I Geredigion bydd hyn ar ôl troed Canolbarth Cymru ar rai materion strategol megis datblygu economaidd, trafniadaeth a chynllunio a rhai materion addysgol. O ran gwaith Gofal Cymdeithasol byddwn yn gweithio gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda a gyda Sir Gâr a Sir Benfro.

Rydym hefyd yn gwethio ar y cyd â siroedd Môn, Gwynedd a Sir Gâr ar gynllun Arfor a sefydlwyd gan Llywodraeth Cymru ar gais Plaid Cymru, sydd yn dod â buddsoddiad i helpu sefydlu a datblygu busnesau yn y cymunedau ble mae'r Gymraeg gryfa. Yn fy marn i, mae angen i Ceredigion fod yn hyblyg er mwyn manteisio ar gyd-weithio mewn pa bynnag ffordd sy'n fanteisiol i ni.

Beth yw manteision cael awdurdod lleol cymharol fychan fel Ceredigion?

O dan y drefn gorfforaethol newydd a sefydlwyd fel rhan o'r ailstrwythuro yn dilyn y toriadau, mae ymagwedd gweithio fel 'Tîm Ceredigion' wedi ei wreiddio bellach ac mae'n fantais fawr mewn sir gymharol fach bod y gwaith yn cael ei lywio gan y Cabinet a bod y Prif Swyddogion yn gallu arwain ar wireddu'r weledigaeth gorfforaethol a osodir gan y Cyngor.

Beth fyddwch chi'n ei golli fwyaf o waith y Cyngor, a beth na fyddwch chi'n ei golli o gwbl?

Ni fyddaf yn colli'r cecru ar y cyfryngau a'r cyfryngau cymdeithasol gan bobl am y pethau mwyaf dibwys!

Byddaf yn colli'r cyfle i arwain ar ddatblygu polisiau addas i Geredigion, y gwaith o eirioli ar ran y sir gyda Gweinidogion Cymru a San Steffan a gyda'n partneriaid yn y sector cyhoeddus. Byddaf yn colli'r gwmniaeth a'r cydweithio hapus gyda fy nghyd-aelodau ar y Cabinet ac ar y Cyngor llawn a gyda'r staff i gyd. Mae aelodau'r Cyngor yn gosod y nod a'r weledigaeth ond heb staff ymroddedig sydd â'r gwaith o wireddu'r dyheadau fyddai dim yn digwydd. Mae fy niolch yn fawr iddynt i gyd am wneud fy ngyfnod fel Arweinydd, ar waetha'r anawsterau, yn un i ymfalchïo ynddo. Diolch o galon 'Tîm Ceredigion'.

Pa gyngor fydddech chi'n ei roi i unrhyw un a hoffai fod yn gynghorydd sir?

Byddwch yn barod i wrando, i gynghori ac i helpu pobl o fewn y ward. Byddwch yn eiriolwr drostynt o fewn y Cyngor a cheisiwch weithio i wireddu eich dyheadau i'r ward ac i'r sir. Rhaid parchu'r etholwyr os ydych am iddynt roi eu cefnogaeth i chi yn y bwth pleidleisio. Ond cofiwch, wnewch chi byth blesio pawb bob amser!

Diolch o galon i etholwyr ward Ceulan a Maesmawr am y fraint o gael eu cynrychioli ac am eu cefnogaeth dros y 23 mlynedd diwethaf. Pob dymuniad da i'm holynydd.

Gwnaethoch ddiwrnod da o waith dros y ward a'r sir, diolch ichi, Ellen.

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Cyfarfod Misol Mis Ebrill 2022

Cynhaliwyd cyfarfod Mis Ebrill Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr ar Nos Iau, 28 Ebrill 2022, yn y Neuadd Goffa gyda pump o'r Cynghorwyr yn bresennol ynghyd â'r Clerc, Mr Rab Jones. Cychwynnodd y cyfarfod gyda'r Cadeirydd, Cyng Megan Mai, yn ymestyn croeso cynnes i bawb.

Etholiad y Cyngor Cymuned

Eglurodd y Clerc ei fod wedi derbyn cadarnhad oddi wrth y Cyngor Sir eu bod wedi derbyn 11 cais ar gyfer yr 11 sedd ar y Cyngor Cymuned. Felly mi fydd yr ymgeiswyr i gyd yn cael eu hethol heb gystadleuaeth. Mi fydd y Cyngor Cymuned newydd yn cwrdd am y tro cyntaf ar Nos Iau, 19 Mai 2022.

Sefyllfa Coronafeirws

Rhoddodd y Cynghorydd Sir, Cyng Ellen ap Gwynn, ddiweddariad ar y sefyllfa diweddaraf yng Ngheredigion gyda coronafeirws. Cadarnhawyd fod cyfarfodydd Grŵp Coronafeirws Tal-y-bont wedi dod i ben erbyn hyn. Cytunwyd ymestyn diolch i aelodau'r Grŵp a fu'n cynnig cymorth i drigolion yr ardal dros y cyfnod coronafeirws, yn enwedig Eryl Bray a Jenny Fothergill a fu'n aelodau o'r Grŵp ers y dechrau.

Mynwent Tal-y-bont

Cadarnhaodd y Cadeirydd, Cyng Megan Mai, fod yr Archesgob Joanna o Dyddewi wedi dod i Fynwent Tal-y-bont ar ddydd Mawrth 26fed Ebrill 2022 ar gyfer y Seremoni Cysegru, gyda'r Parch Eileen Davies, Parch Shirley Murphy, a'r Parch Gwilym Tudur hefyd yn bresennol. Cadarnhawyd fod y Cae Fynwent i gyd wedi cael ei gysegru erbyn hyn ac felly ni fydd angen cael Seremoni Cysegru eto yn y dyfodol.

Ymddeoliad Cyng Ellen ap Gwynn o'r Cyngor Sir

Cynigiodd y Cadeirydd, Cyng Megan Mai, ddiolch i Cyng Ellen ap Gwynn am ei gwaith caled ar ran holl drigolion Ceulanamaesmawr yn ystod ei gwasanaeth fel Cynghorydd Sir yr ardal, ac hefyd dros trigolion y Cyngor Sir i gyd yn ystod y cyfnod fu Ellen yn cynnig gwasanaeth ardderchog fel Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion.

Ymddeoliad Megan Mai o'r Cyngor Cymuned

Yn ei thro, cynigiodd Cyng Ellen ap Gwynn diolch i'r Cadeirydd, Cyng Megan Mai, ar ei gwasanaeth arbennig ar y Cyngor Cymuned. Cadarnhaodd Megan ei fod hi wedi bod yn aelod o'r Cyngor Cymuned am 35 o flynyddoedd ac wedi bod yn Cadeirydd y Cyngor sawl gwaith. Ychwanegodd ei bod hi wedi mwynhau ei chyfnod hir fel Cynghorydd lleol ac wedi gwneud nifer o ffrindiau da ar y Cyngor dros y blynyddoedd. Dymunodd pob llwyddiant i'r Cyngor Cymuned newydd.

Materion Eraill

Cafwyd diweddariad ar nifer o faterion eraill yn cynnwys trafodaeth am gyflwr y Patshyn Glas yn dilyn gwaith diweddar gan Dŵr Cymru. Cadarnhawyd mi fydd Cyfarfod Blynyddol a chyfarfod misol nesaf y Cyngor yn cael eu cynnal am 7:00yh yn y Neuadd Goffa ar nos Iau, 19 Mai 2022

Rab Jones

Clerc Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr
ceulanamaesmawr@gmx.com / 07904 716 180

LLENWI SEDDI'R CYNGHORAU BRO

Llwyddwyd i lenwi bron pob sedd ar gyfer y tri Chyngor Cymuned yn ardal *Papur Pawb* heb gynnal etholiadau eleni. Llongyfarchiadau i'r cynghorwyr i gyd ar gael eu hethol, yn enwedig y rhai sydd yn gwasanaethu am y tro cyntaf. Dyma'r enwau:

Ysguborycoed: 7 sedd 6 enw

Peter Keith Goodman (A), Delyth Griffiths (A), Lona Mason, Alison Swanson (A), Barry Thomas (A), Harry Toland (A)

Llangynfelyn 9 sedd



Bethan Davies, Karen Evans, Stuart Halestrap, Norah Anwen Haynes, Donna James (A), Valerie Michelle James (A), Guy Pargeter (A), Deirdre Raffan, Siân Stacey

Ceulanamaesmawr 11 sedd

Ellen ap Gwynn (PC), Eryl Bray, Catrin M.S. Davies (PC), Elgan James Evans, Rhian Evans (PC), Bledwyn Huws (PC), Enoc Wyn Jenkins (PC), Nest Jenkins, Sion Pennant Jones (PC), Nia Richards, Mererid Watson

CLETWR

Yn ddiweddar cynhaliwyd parti ar gyfer gwirfoddolwyr a staff Cletwr yn The Wildfowler i ffarwelio â Madelene, Liz a Richard, ac i ddweud diolch i bawb sydd wedi gweithio mor galed dros y cyfnod anodd hwn. Roedd y bwyd a'r caneuon o 'Arising' yn gwneud y noson hyd yn oed yn fwy arbennig!



A Heuir a Geir

Cyffro mawr i ni yn y Cletwr oedd gweld bod Matt a Molly, Swyddogion Amgylcheddol gydag Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (gweler <https://traffig.cymru/asiant-cefnffyrdd-gogledd-chanolbarth-cymru>), wedi dechrau gwaith ar y llain wrth ymyl y ffordd sy'n rhedeg ochr yn ochr â'n safle. Maen nhw wedi digroeni'r tir a phlannu hadau blodau gwyllt i annog mwy o bryfed i ymweld – bydd hyn yn estyniad hyfryd i'n gerddi peillwyr-gyfeillgar ac rydyn ni'n ddiolchgar iawn i ACGCC am wneud y gwaith gan edrych ymlaen at weld y llain yn datblygu.



BogFest yng Nghors Fochno

Taith Gerdded a Stori a Gweithgareddau Crefft



Am ddim/Free @ Tocyn
<https://bit.ly/3sPDo8W>
www.cletwr.com

04.06.2022

01970 832 113 events@cletwr.com

Cletwr

DAN DO

'Nawr am rywbeth hollol wahanol'. Dyna'r hyn sydd gyda ni ar eich cyfer y tro yma yn ein cyfres achlysurol dan y pennawd DAN DO. Felly nid tŷ newydd fel arfer ond tŷ sydd wedi newid cymaint dros y blynyddoedd gellir ei ystyried yn dŷ newydd.

Gweddnewidiad neu trawsnewidiad gymerodd le i'r tŷ hwn

Petai chi'n gyrru ar hyd y ffordd gefn o'r Llew Du tuag at pen arall y pentref mae'n bosib na fydddech yn sylwi ar hwn ond petaech yn cerdded fyddai'r tŷ ychydig uwch na'r ffordd ar y dde yn siŵr o dynnu eich sylw. Cyn dŷ Goronwy a Tegwen Jones a'r merched sydd yma ond sydd heddiw yn gartref i Manon ac Anthony Holt, Manon o Gaerfyrddin, athrawes yn Ysgol Gynradd Machynlleth ers chwarter canrif ac Anthony yn gweithio i Drafnidiaeth Cymru ym Machynlleth ac yn gog o Fachynlleth.

Mae nifer o dai tebyg i Glasgoed i'w gweld yn y canolbarth, fe'u gelwir yn Dai Fforest gan eu bod ar gynllun a ddefnyddiwyd gan y Comisiwn Coedwigaeth. Dyna oedd cynllun y tŷ pan aeth Goronwy a'i deulu i fyw yno yntau bryd hynny'n gweithio i'r Comisiwn.



Y tŷ o bell yn dangos yr estyniad gyda gorchudd o bren a rhan o'r ardd.

Symudodd Manon ac Anthony mewn ychydig cyn Nadolig 2016 ar ôl i'r gwaith ar yr estyniad ei gwblhau. Cwmni o Fachynlleth yr oedd Anthony yn adnabod wnaeth y gwaith a gymerodd deunaw mis i'w orffen yn lle'r deuddeg mis yr addawyd. Symud wnaeth y ddau o dŷ teras

ym Machynlleth i dy sengl, tŷ y maen nhw erbyn hyn wedi rhoi eu stamp arbennig nhw arno. Ar lawr waelod yr estyniad mae'r gegin foethus a'u hystafell wely yn union uwchben. Oddi yno gellir clywed sŵn y Ceulan, gweld y dwrgi, os chi'n ddigon ffodus, a'r crëyr glas gyda'u golygfa o'r gwely tua'r eglwys. Tebyg yw'r olygfa o'r ardd tu cefn ond oddi yno gwelir Ynys Enlli a rhan o Ben Llŷn. Cedrwydd Ewrop sy'n gorchuddio rhan uchaf yr estyniad gyda thrwch sylweddol o ddefnydd insiweiddio yn y waliau a'r to. Ar gyfer to'r estyniad buont yn ffodus o ddarganfod teils o bant yn gwmws fel y rhai ar do'r tŷ. Tra'u bod wedi dibynnu ar eraill i adeiladu'r estyniad, lle'r roedd garej gynt, Anthony ei hun fu'n gyfrifol am ailwampio tu mewn y tŷ gwreiddiol, symud yr ystafell ymolchi ag ati er mwyn i gynllun y llofft a'r llawr waelod redeg yn rhwyddach.

Os gwnaethpwyd rhai newidiadau i'r adeilad mae'r tu allan wedi newid yn llwyr. Dan y lawnt o flaen y tŷ mae tanc Calor gas er bod y beipen nwy naturiol gerllaw. Tu cefn crëwyd llwybrau sydd yn troi yr hyn roedd yn ddarn serth a braidd yn beryglus mewn i derasau ar gyfer llwyni ffrwyth meddal, coed afalau a gadael digon o laswellt i'w dorri. Yn y llun gwelir y ddwy res uchaf wedi eu creu o gerrig mawr iawn. Bu'n rhaid holi am ganiatâd Llety'r Bugail am

yr hawl i fynd drwy y cae drws nesaf i gyrraedd y darn uchaf o dir Glasgoed. Doedd dim modd eu ffurfio heb fynd drwy'r cae a defnyddio peiriant cryf i gludo cerrig i'r safle. Cafwyd un foment o gonsym wrth wneud y gwaith pan ddihangodd un garreg o afael y peiriant a rhwlio tuag at y tŷ ond i goeden afalau ei dal! Oni bai am hynny.



O'r teras uchaf tua'r gorwel ac Ynys Enlli a Phen Llŷn


Ar y teras uchaf gwelir gwaith ar ei hanner sef gazebo a fydd ymhen ychydig yn lliw wrth i'r planhigion ddringo i fyny'r pyst a dyma lle bydd man hyfryd i edrych tua'r pentref i un cyfeiriad a thua'r gorwel pell a Phen Llŷn dros yr eglwys, i'r llall. Tu ôl y gazebo mae ffens a'r ffin gyda Neuadd Fawr a dyma ble fydd gwledd arall o liw gyda'r hyn blannwyd gan Manon ac Anthony. Dim ond diolch sydd ganddynt i deulu'r fferm. Maent wedi cael caniatâd i dorri ambell goeden a thacluso'r ffin rhyngddynt ac am eu gwaith, heb ofyn, cafwyd llwyth o ddom dros y ffens o'r fferm! Wrth gerdded o'r pentref sylwch bod y ffin o bîn wedi diflannu a sietyn Red Robin yn dechrau gwreiddio. Credir bydd y gwartheg a ddaw yn achlysurol i'r cae yn cadw trefn arno - dyna'r gobaith beth bynnag!



Manon ac Anthony gyda'r olygfa tua'r pentref

'Nid yw Anthony yn hoffi bod yn segur', meddai Manon, felly a ddaw y gwaith o gwmpas y tŷ i ben unrhyw bryd? Nid yn y dyfodol agos beth bynnag, mae cymaint maent yn awyddus i'w gyflawni ac mae'r haf eto i ddod.

Rhys Huws



Darn uchaf yr ardd, y ffin gyda Neuadd Fawr gyda'r teras o gerrig enfawr a'r gazebo

STORFA HUNAN FYNEDIAD

UNEDAU STORIO DIOGEL & WEDI GWRESOGI

MONITRO DIOGELWCH 24 AWR

Storfa Cartref & Busnes

Bocsau a Bubblewrap

Symud gyda **Wales REMOVALS**

STORFA CANOLBARTH CYMRU

Tel: 01654 703592

Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ

MID WALES STORAGE www.midwalesstorage.co.uk

PORTREADAU ARVID



Goronwy Jones aeth i weld Wil James yn Ionawr 1987 i drafod ei ddiddordeb mewn hen feiciau modur ac Arvid dynnodd y llun o Wil yn ei garej.

Rwy'n siŵr fod pob un o'n darllenwyr wedi clywed am Wil Sam, dramodydd, perchennog modurdy ond a'i fryd ar hen feiciau modur, wel, mae yn ein plith ninnau, Wil, ond nid Wil Sam, a'i ddiddordeb yntau hefyd yw adnewyddu hen feiciau modur. Ie, gyda William James, Maesyllan, Talybont y bŵm yn sgwrsio'r tro yma.

Wedi gadael yr ysgol treuliodd Wil gyfnod gartref ar y fferm cyn mynd i wasanaethu i ffermydd eraill. Ond yn fuan iawn penderfynodd geisio dilyn ei elfen o drin a thrwsio peiriannau o bob math. Ar ôl cyfnod mewn modurdy yng Nghilcennin daeth i fyw i Dal-y-bont ac yna gweithio am rai blynedd mewn gwahanol fodurdai yn y cylch gan ddysgu ac arfer crefftau ei alwedigaeth cyn cael ei gyflogi yn y modurdy lleol.

Roedd gan Wil ddiddordeb mewn hen feiciau modur - y clasuron fel y pwysleisiodd imi, o'i ardegau cynnar a bu'n berchen ar Norton, Matchless a BSA C10 yn eu tro. Enwau cyfarwydd y byd cerbydau dwy olwyn ac yn dwyn atgofion cofiadwy am eu gwneuthuriad dibynadwy i lawer rwy'n siŵr. Yn aml, fel popeth arall, ar ôl dysgu gyrru modur collodd Wil y diddordeb am flynyddoedd hyd nes yr aeth am dro i sioe hen dractorau yn Bishop's Castle, a hyn yn ddi-os yn ôl Wil a'i enynnodd, dair blynedd yn ôl, i ail gydio yn ei hobi.

Clywodd am sgerbwd o feic tua Llanbryn-mair, ac o'i weld talodd ychydig bunnoedd amdano a'i gyrchu adref. Beic modur a fu heb amheuaeth gyda'r goreuon, BSA 650 twin, 1950, ond yn awr dim ond dwy olwyn, dim hyd yn oed sê na thane petrol, ac adnewyddu hwn i'w hen ogoniant ac ail gyneuodd y fflam i ail gydio yn ei hobi. Y mae'r ffaith nad oedd gan Wil yr un llun o'r beic i'w helpu wedi'i ddal yn ôl ychydig ac o'r herwydd mae wedi gorfod dibynnu'n llwyr ar ei gof i adnewyddu'r beic i'w ogoniant gwreiddiol. Wrth chwilota trwy stondinau ar feysydd sioeau hen beiriannau efallai y daw ar draws darnau cymwys i'w anghenion, roden i'r brêc neu rwber i'r throthl neu'r orffwys droed a hynny gyda'r llythrennau BSA wedi'u printio arnynt, mae'n rhaid cael darn mor agos i'r gwreiddiol o wneuthuriad BSA ag sy'n bosibl. Hyn sy'n ei gwneud yn hobi araf i'w chwblhau.

Mae hefyd wedi gorfod anfon darnau i ffwrdd at arbenigwr tua Llanllieni i'w hadnewyddu, megis ail-roi cromiwm ar yr olwynion. Mae'n dal i chwilio am gadwyn 61, tanc a dwy biben 'exhaust' ac fe fydd angen rhoi cromiwm arnynt a'i orchwyl olaf fydd peintio'r rhif cofrestru ar y gard olwyn blaen ac ar y plât ar y gard olwyn ôl ac yna fe fydd y clasur CEP 396 yn barod i wibio unwaith yn rhagor ar hyd ein heolydd. Pwy a ŵyr, mae'n bosibl mai cludo Wil o fan i fan i chwilio a sbrotian trwy stondinau sioeau am ddarnau cymwys i hen Morris 1000 fydd y clasur gan mai dyna fydd yn dal ei ddiddordeb ac yn rhoi sialens iddo nesaf. Ac fe fydd Wil yn gallu edrych yn ôl ar ei gyfanwaith unwaith yn rhagor fel hobi werth yr holl drafferth.

Y Gair Olaf



Yn ddiweddar es i gyda chriw o ffrindiau o Nefyn i wrando ar Candelas yn Nhafarn Madryn, Chwillog (tafarn y mae pum person lleol wedi'i phrynu er mwyn hybu'r economi a'r Gymraeg yn yr ardal).

Daeth Siôn (cwlffyn o foi cyhyrog, yn datws i gyd, a chenedlaetholwr i'r carn) i'n codi yn ei dacs. Ymhen sbel dyma fe'n edrych arna i'n y drych a gofyn,

"Dach chi'n dod o'r Sowth, tydach?"

"Wdw", atebais i. "Wel, o'r gorllewin, o Shir Benfro."

"Be dach chi'n ddeud am 'dorri gwair'?" (Cwestiwn braidd yn randym!)

"Torri porfa," medde fi.

"Beth am 'nofio'? 'Swimio', betia i."

"Ha ha, nage! Mofiad."

"Argol! Ia?"

"Ie. Mae tafodiaith arbennig gyda phobl Sir Benfro. Er enghraifft, ry'n i'n gwneud 'wês' am 'oes', 'cwêd' am 'coed', a 'trwêd' am 'troed'!

"Argol!" Saib. "Ond rydan ni'n deall yn gilydd yn iawn, tydan?"

Oedden, roedden ni'n deall ein gilydd yn berffaith.

Mae tafodieithoedd yn elfen gyfoethog a phwysig o'n hiaith, a byddai'n drueni eu colli.

Wedi dweud hynny, does dim o'i le ar ollwng tafodiaith ac addasu iaith i hwyluso sgwrs, yn enwedig gyda dysgwyr Cymraeg. Gwneud pobl yn hyderus i siarad Cymraeg sy'n bwysig, ontyfe?

Delyth Ifan

MERCHED Y WAWR



Yn ystod yr wythnosau diwethaf bu aelodau cangen Merched y Wawr Tal-y-bont a'r cylch yn brysur yn gwau ar gyfer addurno pabell y mudiad ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron.

Llwyddwyd i wau

stribed lliwgar hir dros 48 troedfedd o hyd ond roedd Aileen, un o'n haelodau, wedi llwyddo i wau darn 21 troedfedd o hyd - anhygoel!

GWELLIANNAU I'R NEUADD GOFFA

O fewn dwy flynedd fe fydd Neuadd Goffa Tal-y-bont yn dathlu ei chanmlwyddiant ac ar hyn o bryd mae'r Pwyllgor Rheoli yn bwrw ati i wneud gwelliannau i'r adeilad er mwyn sicrhau dyfodol tymor hir i'r adnodd pwysig hwn. Y cam diweddaraf yw newid y ffenestri



ar ochr ddeheuol yr adeilad yn ogystal â'r cefn, sef y mannau sy'n wynebu'r tywydd garwaf. Y gobaith yw bwrw ati i newid gweddill y ffenestri wrth i gyllid ganiatáu. Hefyd, diolch i nawdd gan gronfa Eleri dwy flynedd yn ôl mae newidiadau yn yr arfaeth yn y Neuadd isaf. Hyderwn y bydd yr holl welliannau wrth fodd mynychwyr y Neuadd, wrth i'r defnydd gynyddu yn raddol gyda gofidiau Covid yn lleihau.

Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont


Rydym wedi cael deufis prysur a diddorol iawn yn y Clwb yn sgil llacio cyfyngiadau Cofid.

Ym mis Chwefror buon yn y Libanus yn y Borth. Bues i'n cystadlu fel Siaradwr i dîm cymysg gyda Chlwb Bro'r Dderi dan 16 oed ac fe ddaethon ni'n bedwerydd fel grŵp.



Dechrau mis Mawrth buon ni'n dathlu Dydd Gŵyl Dewi ar y cyntaf wrth greu Cawl yn Neuadd Talybont dan arweinyddiaeth dawnus Mair Nutting. Cafwyd noson llawn hwyl a sbri efo pawb yn coginio, chwarae gemau a mwynhau eu creadigaethau ar ddiwedd y noson.

Yr wythnos ganlynol buodd y clwb yn y Borth i ddiddori ar noson yn dysgu am y Bâd Achub, cyn cael boliad o sglodion i gloi.



Roedd yn noson ddiddorol a bywiog tu hwnt. Diolch yn fawr i wylwyr y glannau y Borth!

Ar y pymthegfed cafwyd noson gyda Rhodri, Owen a Bedwyr yn chwarae pêl droed 5 bob ochr. Am hwyl!



Ar ddydd Mawrth yr ail ar hugain buon ni'n lwcus i gael Iwan y milfeddyg i'n haddysgu am bwysigrwydd ei waith. Diolch am ddod atom ynghanol tymor wyna prysur!

Wythnos olaf y mis fe gawsom y pleser o gwmni Theatr Arad Goch yn rhoi perfformiad gafaelgar o 'Croesi'r Llinell'

Hoffem hefyd fel Clwb longyfarch tîm Siarad Cyhoeddus Saesneg Talybont am ennill ar lefel genedlaethol! Am gamp! Diolch i Rhian am eu hyfforddi unwaith eto.

Elen Madrun

LLAETH LLEOL ORGANIG
ar gael yn y
Cwtsh Llaeth Aberystwyth a Machynlleth

www.llaethjenkinsmilk.co.uk
07813 827 712
@cwtshllaeth

Hefyd ar gael yn siopau lleol.

Jenkins, Cerrigaranau Uchaf, Talybont



"Sticia i luniau'r merched - elli di ddim fforddio'r tractor yna!"



NICEIC
APPROVED
CONTRACTOR

Alun Davies
Contractiwr Trydanol

T 01970 832142 **M** 07703 169813

Gwynfryn, Talybont, Ceredigion SY245EA
E alun.davies142@btinternet.com

6 Maes y Felin | Talybont | Ceredigion | SY24 5DZ

www.michaelrowlands.ltd.uk
m.rowlands1958@gmail.com



Michael Rowlands
Adeiladwr

01970 832 732 • 07929 003 576

Grant Mayhew Ltd

GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL



01970 832772 / 07846 255881
grantmayhewltd@yahoo.co.uk